Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 10.] HYDREF, 1913. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Oddiar y Twr.
Ymson y Myfyriwr. Gwilym Gwenog. Cledlyn
Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau.
Parch. E. Ceredig Jones.
Nefoedd ac Uffern.
Rhinweddau Amheus. Parcwyson.
Gwisg y Goruchaf.
Marw'r Mab o Flaen ei Dad.
Adolygiad. Enwadaeth.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Pacific Unitarian School for the Ministry, Berkeley, California.

FOUNDED 1904.

Aims at thorough and scientific scholarship; emphasizes the application of religious ideals to municipal and social as well as individual life; gives complete preparation for the modern ministry and social service. It works in co-operation with the University of California and other Divinity Schools and affords an unusually wide choice of courses. Open to both sexes.

The Spring Term begins January 13, 1914. Write for the Register and complete information to the President.

EARL MORSE WILBUR, D.D.,
Pacific Unitarian School,
Berkeley, California.

TALIADAU.

Parch. S. E. B., Crumlin; J. T. Tibberton; L. E., Cefncoed; J. B., Llanelly.

Y CLEFYD AR Y LEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. —

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1913. [CYF. XIII. RHIF 10.

ODDIAR Y TWR.

Irai a deimlant ddyddordeb mewn materion crefyddol—a phwy sydd na theimla ryw gymmaint o ddyddordeb ynddynt?—un o ddigwyddiadau mwyaf nodedig y mis diweddaf, yn ddiamheuol, oedd

ANERCHIAD Y DR. OLIVER LODGE

fel Llywydd "Y Gymdeithas Brydeinig er hyrwyddo Gwyddor." I'r cyfryw o'n darllenwyr ag y mae'r Gymdeithas hon yn ddieithr iddynt, y mae gair o eglurhâd mewn perthynas iddi yn ddyledus. Sefydlwyd hi yn 1851—cynhaliwyd ei chyfarfodydd blynyddol cyntaf yn York yn y flwyddyn hono; a'i sylfaenydd—o leiaf, y mwyaf amlwg o'r ychydig fuont flaenllaw yn ei sefydliad—oedd Syr David Brewster, un o wyddonwyr enwocaf y ganrif ddiweddaf. Er y flwyddyn uchod y mae'r Gymdeithas wedi cynal ei chyfarfodydd yn flynyddol, fel rheol yn un o drefydd mawr y Deyrnas Gyfunol; ond y mae hefyd, ar amryw achlysuron, wedi talu ymweliad â'r Trefedigaethau Prydeinig. Yn nghwrs y blynyddau y mae ei haelodaeth wedi cynyddu yn ddirfawr—dywedir fod y nifer yn awr uwchlaw pum mil; ac y mae cyfran liosog o'r nifer hwn—tua chwarter—yn arfer mynychu'r cyfarfodydd blynyddol. Gwelir, felly, nad mater bach yw i dref estyn gwahoddiad iddi i dalu ymweliad â hi. Ei hamcan, fel yr awgryma ei henw, yw ymdrin â phynciau gwyddonol; ac oddiar ei llwyfan y mae llawer iawn o brif ddarganfyddiadau gwyddonol y ganrif ddiweddaf wedi eu gwneyd yn hyspys neu wedi eu hegluro yn gyhoeddus y tro cyntaf. Dosrenir y Gymdeithas i adranau, megis yr adran (1) Fesurol; (2) Fferyllol; (3) Ddaearegol, ac yn y blaen. Perthyn i bod adran ei llywydd a'i chyfarfodydd ei hun. Ac yna, ar yr oll fel un Gymdeithas, penodir fel llywydd yn flynyddol rywun sydd wedi enwogi ei hun yn un neu ragor o'r canghenau gwyddonol. Cynaliwyd cyfarfodydd eleni ym Mirmingham, yn yr ail wythnos o Fedi, a'r Dr. Oliver Lodge, Prifathraw Prif Ysgol y dref hono oedd y

Llywydd. Mae nifer yr oll o'r cyfarfodydd gynhelir yn ystod yr wythnos yr ymgyferfydd yn lliosog; felly hefyd y papyrau a ddarllenir a'r anerchiadau draddodir ynddynt. A thybiaf nad gorchwyl hawdd yw gwrando arnynt—yn wir, i leygwr nad yw yn gwybod llawer am wyddor, gorchwyl di-fudd iawn ydyw. Nid wyf yn wyddonwr; ond er hyn, gwnês fy ngoreu i ddilyn gweithrediadau'r amrywiol adranau o'r Gymdeithas fel y cyhoeddid hwy o ddydd i ddydd; ond rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn, yn achos y rhan fwyaf o'r anerchiadau a'r papyrau, yn gwneyd dim yn rhagor na darllen y geiriau. Nid oedd genyf ond amgyffrediad gwan am yr hyn draethid ynddynt; yr oeddwn fel pe yn ymdeithio mewn niwl tew, heb wybod yn gywir yn mha le yr oeddwn, nac i ba le yr oeddwn yn myned. Ehedai y rhan fwyaf o'r siaradwyr mor uchel, fel na allwn i wneyd dim ond edrych i fyny, a rhyfeddu ac edmygu. Dyna'm profiad wrth ddarllen y rhan fwyaf o anerchiad y llywydd. Ond fel y dynesai at derfyn ei arawd teimlwn ei fod yn dod yn nes ataf; oherwydd cyffyrddai â mater y teimlwn ryw gymaint o ddyddordeb ynddo, yr hen bwnc o'r

Berthynas rhwng Crefydd a Gwyddor.

Am yr hanner canrif diweddaf—efallai ychydig yn fwy—y mae gwyddor a chrefydd, neu, yn fwy cywir, y mae gwyddonwyr a chrefyddwyr, wedi bod, fel dwy fyddin ryfelgar, yn brwydro yn erbyn eu gilydd. Am hyn y mae cyfrifoldeb yn gorphwys ar y ddwy blaid—y gwyddonwyr a'r crefyddwyr. Ar un llaw, edrychai'r gwyddonwyr yn rhy gyffredin ar grefydd fel ofergoeledd, ac elent allan o'u ffordd yn fynych i roddi iddi hergwd, i'r dyben o'i gwthio ar y naill du rhag bod yn rhwystr i gynydd. Dyna'r osgedd nodwedda ysgrifeniadau Huxley, Tyndall, Spencer, Haeckel, ac eraill, yn eu cyfeiriadau at a'u hymdriniaeth o faterion crefyddol. Yn ddiameu, yr oedd llawer iawn o ofergoeledd yn nghred eu dydd—llawer o syniadau na ellid rhoi coel iddynt yn ngoleu gwyddor. Wrth geisio clirio'r ofergoeleddau a'r syniadau anghredadwy hyn, gwnaent wasanaeth gwerthfawr. Rhwystr yw pob ofergoeledd a phob syniad na chymhella ei hun i'r meddwl a'r rheswm diwylliedig. Ond oherwydd eu hanallu i weled neu eu hanewyllysgarwch i gydnabod fod yr elfen grefyddol yn rhan mor hanfodol o'r natur ddynol, fel na ellir, gwnaer a fyner, ei dadwreiddio, syrthient i'r camsynied o gondemnio crefydd yn gyfangwbl. Dyna duedd eu hysgrifeniadau ar y cyfan; a chamsynied oedd hyn—ie, camsynied dybryd. Ar y tu arall, edrychai crefyddwyr yn rhy gyffredin ar wyddor fel gelyn, yn erbyn yr hwn y gelwid arnynt (fel y tybient) i frwydro yn ddi-orphwys; edrychent arni fel gelyn am ei bod yn gwneyd llawer o syniadau a dybid yn hanfodol i grefydd yn amhosibl. Camsynied mawr duwinyddion yn mhob oes yw meddwl fod y gwir, yr holl wir, mewn perthynas i grefydd, yn eu meddiant; fod y syniadau duwinyddol y credant ynddynt i aros yn ddigyfnewid. Yr osgedd feddyliol iawn yw, edrych

ar bob mynegiad o'r gwirionedd fel yn amherffaith, a chroesawu pob goleuni gwell, gan nad o ba le y daw. Trueni fod y fath air ag iawnffyddiaeth yn ngeir-restr unrhyw iaith. Y mae wedi llyffetheirio'r meddwl dynol trwy'r oesau. Dyna'r safle, ynte, am yr haner canrif diweddaf. Ond y mae arwyddion amlwg fod

GWELL YSPRYD YN DECHREU FFYNU YN Y DDAU WERSYLL.

Ar un llaw, dechreua'r gwyddonwr gydnabod mai cydymdeimlad ddylai nodweddu ei osgedd at grefydd, ac nid gelyniaeth. Ar y llaw arall, dechreua'r duwinydd gydnabod mai fel llaw-forwyn i grefydd y dylai efe edrych ar wyddor, ac nid fel gwrthwynebydd anghymodlawn. Chwiliwr di-ragfarn am y gwirionedd ddylai'r gwyddonwr fod; a dyna ydyw ar y cyfan—er nad yw yn yr amser a fu wedi bod yn hollol rydd o ragfarn yn ei ymwneyd â chrefydd. Chwiliwr diragfarn am y gwirionedd ddylai'r crefyddwr fod hefyd; er (y mae yn rhaid cydnabod hyn) fod rhagfarn wedi cael llawer gormod o groesaw gan grefyddwyr yn eu hymwneyd â gwyddor. Trwy'r camddealltwriaeth hwn ag y mae rhagfarn ar y ddau tu wedi achosi, y mae cagendor wedi ei greu rhyngddynt. Y mae yn hen bryd iddynt gydweithio yn galonog i bontio'r gagendor. Dyna beth mae y Dr. Oliver Lodge wedi bod yn wneyd trwy'r blynyddau. Nid peth newydd, felly, yn ei achos ef, yw'r cydymdeimlad â chrefydd amlygir ganddo yn ei anerchiad.

BETH DDYWEDIR GANDDO AM GREFYDD?

"Mae gwreiddiau crefydd wirioneddol," meddai, "i lawr yn ddwfn yn nghalon dynoliaeth ac yn hanfodedd pethau." Ie, "crefydd wirioneddol." Nid yw'r ddynoliaeth eto ond megis ar ei ffordd tuagat y grefydd hon. Ac nid yw yn un syndod ein bod, fel y dywed y Dr., ag ystyried ein dulliau amherffaith o chwilio am dani, yn methu cael gafael ynddi. Ond nid yw'r methiant hwn yn un rheswm dros roi i fyny yr ymchwil am dani. Ac yn yr ymchwil hon dylai'r gwyddonwr a'r crefyddwr fod yn gyd-weithwyr. Chwilied pob un ohonynt am gymaint o oleuni ar y dirgelwch a'u hamgylchant a fedrant ddod o hyd iddo; a meithrined pob un o honynt barodrwydd i ddysgu oddi wrth y llall. Dyna, mi gredaf, y ffordd y mae cynydd yn nghyfeiriad y "grefydd wirioneddol" i ddod yn bosibl. Yna,

BETH AM Y DYFODOL?

A ydyw dyn yn parhau ar ol yr hyn alwn ni yn angeu? Pwnc yw hwn, allem feddwl ar yr olwg gyntaf, sydd hollol tu allan i diriogaeth briodol gwyddor. Nid felly y tybia Dr. Lodge, fel y mae yn amlwg. Y mae yn bwnc ag y mae efe, ynghyd âg amryw wyddonwyr enwog eraill, megis Syr William Crookes, Alfred Russell Wallace, cyddarganfyddwr â Darwin o'r hyn ellir yn drwsgl ei gyfieithu yn

"syniad o ddetholiad naturiol" (*theory of natural selection*), wedi treulio cryn lawer o amser i wneyd ymchwiliadau iddo. Dyma ddywed ar y mater hwn yn ei anerchiad :—"Mae'r ffeithiau (sydd) eisoes wedi eu harchwilio wedi'm hargyhoeddi nad yw cof a serch yn gyfyngedig i'r cysylltiad hwnw â mater trwy yr hwn yn unig y gallant amlygu eu hunain yma ac yn awr, ac fod personoliaeth yn parhau ar ol marwolaeth y corph." Gyda phriodoldeb y desgrifir yr uchod gan un fel "honiad hŷf." O braidd y ceir un duwinydd a anturia yn mhellach na hyn. Wel, rhaid dwyn y sylwadau hyn i derfyn. A gwnaf hyny yn y fel hyn. A barnu wrth y derbyniad ffafriol y mae'r anerchiad dan sylw wedi gael—nid yn ddi-eithriad, wrth gwrs, ni ellid disgwyl hyny--nid oes lle i amheuaeth nad ei heffaith fydd creu cyfnod newydd yn y berthynas rhwng crefydd a gwyddor--cyfnod yn yr hwn y byddant yn llaw-forwynion, ac nid yn elynion, i'w gilydd.

GWYLIEDYDD.

YMSON Y MYFYRIWR.

YR oeddwn ar fy ffordd i gyfarfod pregethu. Nis gwaeth yn mha le yr oedd y cyfarfod, na phwy oedd yn pregethu yno, nac ychwaith i ba enwad y perthynai. Efallai y bydd ambell un a ddarllena'r llith hwn yn dyfalu hyn ac arall. Pob croesaw iddynt i wneyd hyny. Ond peidient bod yn rhy sicr eu bod yn iawn. Ni ddywedaf fi un gair, os medraf beidio, a all roi un sail iddynt i dynu casgliadau. Efallai hefyd na fydd yn y sylwadau a ganlyn un dyddordeb i'n darllenwyr; ond rhywfodd fe'm cymhellir gan rywbeth, nis gwn gan beth, i'w danfon i'r Golygydd, iddo ef i wneyd fel y myno a hwynt. Yr oedd y daith y cyfeiriais ati yn un ddyddorol i mi am iddi roi cyfleustra i mi i wybod

BETH MAE Y BOBL YN SIARAD.

Yn cyd-deithio â mi yr oedd cyfaill dyddan, a adnabyddai'r wlad a'i phobl yn well na mi, a'r hwn a wnaeth y dydd i mi yn un llawer mwy dyddorol a dymunol na phe buaswn yn ddi-gwmni. Mantais fawr yw hyn pan yn teithio mewn gwlad neu gymydogaeth ddieithr. Mae dyddordeb y daith yn dybynu bron yn hollol ar fod gan y teithiwr arweinydd a ŵyr rywbeth am y ffordd a'i hamgylchoedd. Dyna'm profiad i, o leiaf, y boreu dan sylw. Gallwn edmygu tlysni'r olygfa lawn cystal heb arweinydd, efallai. Dim ond

"LLYGAD I WELED ANIAN"

sydd eisiau yn hyn. Ond byddai'r gymydogaeth ei hun, ar ol myned o honof trwyddi, mor ddieithr i mi ag ydoedd cyn hyny. Gallwn yn hawdd fod wedi pasio rhyw berson enwog yr hoffwn ei weled; neu le sydd wedi chwareu rhan bwysig yn hanes y gorphenol, yr hwn yr hoffwn sylwi arno neu ymweled ag ef. Gan fod genym ddigon o amser cyn dechreu'r oedfa gyntaf, nid oeddem yn brysio; a phesid ni ar y ffordd gan lawer oeddent a'u hwynebau tua'r un cyrchfan—rhai ar draed, ereill ar geffylau, ereill mewn cerbydau o bob math—o'r modur drudfawr i lawr (neu i fyny, os myner) hyd at—wel, buais bron dyweyd hyd at y cert asyn; ond nid wyf yn cofio i mi weled yr anifail defnyddiol hwnw yn yr orymdaith diderfyn bron. Fel yr oeddent, un ar ol y llall, yn myned heibio i ni, cyfarchai'm cyfaill hwynt wrth eu henwau, a chyfarchent hwythau yntau; a thaflai ambell un o honynt olwg gilwgus tuag ataf finau, cystal a phe'r ewyllysient ofyn—"Pwy yw hwn sydd gyda chi?" A deallai yntau eu dymuniad; oblegid nid cynt y gorphenid y cyfarchiadau nag y dywedai—"Dyma Mr. ———, gweinidog yr Undodiaid yn ———." Ac wrth ddyweyd hyn, nid ymddangosai fel pe fod arno gywilydd i'm harddel, fel y digwydd yn fynych yn achos llawer o

UNDODIAID DI-ASGWRN-CEFN;

yn hytrach, taenai gwên siriol dros ei wyneb, fel pe byddai'n falch i gael y cyfle i ddangos iddynt pa fath un, yn yr olwg allanol arno, yw gweinidog Undodaidd. Bob tro y dywedai hyn, hefyd, rhaid i mi gyfaddef fy mod (fel y dywed y Dr. Gomer Lewis am dano ei hun pan y derbyniodd y radd o D.D. ar adeg ei ymweliad a "Ffair y Byd") yn tueddu i chwyddo tipyn yn nghymydogaeth y frest; ac ofnwn (fel y gwnai'r Dr. eto) bob mynyd y gwelwn fotymau'm gwasgod yn tasgu i ffwrdd, un ar ol y llall, dan effaith yr ymchwydd; oblegid teimlwn, os parhai hyn am dipyn o amser, y byddwn, cyn yr hwyr yn

UN O'R PREGETHWYR MWYAF ADNABYDDUS

yn y gymanfa. Yn wir, dychmygwn weithiau fod ambell un yn pwyntio ei fys ataf, ac yn dyweyd wrth ei gymdeithion, "dyna bregethwr Sosiniaid." Ni ddarfu i mi glywed neb yn dyweyd hyn; ond gwnai ambell un ystum awgrymiadol iawn wrth fyned heibio i mi, oherwydd er fy mod gryn dipyn o ffordd o'm tre', deuais i gyffyrddiad ag amryw yn ystod y dydd a'm hadnabyddent. Ond i ddychwelyd at y daith i'r lle. Yn canlyn y cyfarchiadau ceid ambell i ymgom felus, ddyddorol, yn dal perthynas yn benaf a'r cyfarfodydd a'r pregethwyr a'r pregethau, a'r tywydd, wrth gwrs. Am y tywydd y siaredid gyntaf. Yna troid at y cyrddau. "Sut gyfarfod gawsoch chi prydnawn ddoe?" "Ardderchog," oedd ateb un. "Ie," medd arall, "ond siaradodd hwn a hwn yn dda." "Do," meddai'r trydydd, "ond yr oedd ganddo lawer o fantais ar y lleill." "Pam hyny?"

gofynais inau. "Am mai efe oedd y cyntaf," oedd yr ateb, "a chan mai ar yr un pwnc y siaradent ill pedwar, yr oedd y lleill yn llafurio dan anfantais." "Eithaf gwir," meddai arall, "ond er mai'r un pwnc oedd ganddynt, eto nid ar yr un agwedd o hono y siaradent." Ystyr y sylw olaf (allwn dybied) oedd, y dylai'r oll o'r siaradwyr fod wedi gwneyd yn dda er mai ar yr un pwnc y siaradent. A chytunid yn weddol unfrydol mai felly yr oedd—fod y pedwar ar eu huchelfanau. Aeth y cwmni hwn rhag ei flaen, a daeth cwmni arall yn fuan i'w le. "Fuoch chi yn y cyfarfodydd ddoe?" "Naddo; ond buais yn y moddion yn ———," oedd ateb un o'r cwmni. "Pwy oedd yn pregethu?" "Hwn a hwn." "Oedd e'n dda?" "Oedd, yn dda odiaeth." "Oedd," meddai arall eto, gyda phwyslais awgrymiadol dros ben, "a 'doedd

Dim scrap o Bapyr

o'i flaen e' chwaith. Dŵ i ddim yn hoff o weld y pregethwr yn troi'r dail o hyd ac o hyd. Pregethwr heb bapyr i fi." "Ie," meddai'm cyfaill, "ond gwell cael papyr, a thipyn o synwyr gydag e'." Agorodd hyn (allwn feddwl) ddrws i faes nad oedd molwr y pregethwr dibapyr wedi meddwl llawer am dano; oherwydd, gyda dyweyd, "mae pregeth heb bapyr yn dangos mwy o ôl llafur," ymadawodd â ni. Ni welais mo hono ar ol hyny, ond tebyg ei fod wedi ei foddloni yn fawr yn mhregethau'r dydd: oherwydd, yn hyn o beth, delent i fyny a'i

Safon ef o Bregethwr Da.

Yn y mater hwn o bregethu heb bapyr, tybiaf fod gan y rhan fwyaf o bregethwyr sydd wedi gwneyd yr ymgais—ymddengys fod pregethu heb bapyr yn rhan o uchelgais bron pob pregethwr, ieuanc a hen,—brofiad amrywiol iawn ei natur. Mae peth o'r profiad hwn yn chwerw. Dyma stori, stori wir hefyd—a amlyga beth yw achos y chwerwder. Yr oedd dyn ieuanc unwaith, pan yn y coleg, yn awyddus i fod yn alluog i bregethu "o'r frest," fel y dywedir, a phenderfynodd wneyd yr ymgais. Felly, trysorodd ei bregeth ar ei gof yn drwyadl, a phan ddaeth y Sul, gadawodd y bregeth yn ei fyfyrgell, ac anturiodd i'r pwlpud gyda dewrder oedd yn gweddu i bregethwr o brofiad eang. Darllenodd ei destyn, a dechreuodd y bregeth. Aeth yn mlaen yn hwylus am dipyn, gyda llygad ei feddwl yn dýn ar y papyr yn ei fyfyrgell. Ond cyn ei fod agos haner y bregeth daeth haid o grytiaid heibio i'r addoldy gyda *choncertina*. Mae'r offeryn hwn yn burion yn ei le ei hun. Ond nid yw o un cymhorth i grwt ieuanc yn dyfal frwydro a phregeth ar y cof; a bu nôs yno—a thipyn o sarhad hefyd. Dywedodd y cyfaill y cyfeiriwyd ato eisioes fod "pregeth heb bapyr yn dangos mwy o ôl llafur" na phregeth ar bapyr. Mewn rhai amgylchiadau y mae hyn yn wir. Ond mewn rhai amgylchiadau hefyd mae "pregeth heb bapyr" yn dangos rhywbeth arall hollol wahanol i "ôl llafur." "Dw i ddim yn

arfer pregethu a phapyr o fy mlaen," meddai un pregethwr o duedd ymffrostgar un tro. "Byddai'n fendith fawr pe gwnaet hyny," meddai gwrandawr wrth wrandawr arall. Ar y pwnc hwn y mae

LLAWER O SIARAD DI-BWRPAS

iawn. Y pregethwr ei hun ŵyr oreu beth ddylai efe wneyd. Os ewyllysia ddarllen ei bregeth, gwnaed hyny. Mae hyn yn ddiogel iawn. Mae rhai o bregethwyr blaenaf y ganrif o'r dosbarth hwn. Os i'r gwrthwyneb, ar y tu arall, yr ewyllysia, gwnaed hyny eto. Yr hyn sydd bwysig yw, fod y pregethwr yn dyweyd rhywbeth fydd yn werth i'r gwrandawr i wrando arno, ac fod y bregeth yn cyrhaedd ei hamcan.

MYFYRIWR.

GWILYM GWENOG.

PARHAD.

GANU er mwyn y pleser a gai wrth ganu ac nid er mwyn elw ac enw a wnai Gwilym Gwenog. Nid gwerth arianol y fasgedaid a'i cymhellai i bysgota yn nhawel lynoedd myfyrdod, ond y mwyniant a gai wrth fachu drychfeddwl ar ol drychfeddwl â genwair ei awen. Yn y caeth fesurau, yr englyn oedd eu ffafred, ac yr oedd cyn hoffed iddo ag oedd y sonned i'r bardd Wordsworth. Hawdd y gellir dychmygu yr hwyl a'r difyrwch a gafodd ef a'i frawd Dafydd, lawer tro, pan yn hogiau, wrth lunio englynion "Dau a dwy" o gylch y mawn-dân ar hen aelwyd Glynmeherin. Math o *nonsense verses* oedd y rhai hyn, a phlethid hwy yn unig er mwyn ymarferiad mewn cynghanedd. Wele ddau o honynt :—

"Dau we'ydd, a dwy wahadden ;—dau geffyl,
A dwy gyffes meinwen ;
Dau lwynog, a dwy wlanen ;
Dau fryn hir, a dwy frân wenn.

Dau fynydd, dwy faneg ;—dau o Lwydiaid,
A dwy lodes landeg ;
Dau beint o win, dwy bunt deg ;
Dau gosyn a dwy gaseg."

Gydag amser, tyfodd Gwilym yn bencampwr ar englyn, a phan fetiodd cyfaill ag ef na fedrai osod y ddau air "Llanrhaiadr-mochnant," a "Rhosllanerchrugog" yn rhwym yn hualau y pedair llinell, daeth y bardd allan yn enillwr gyda'r englyn canlynol :—

"Calfiniaid cul a fynant—eu rhodres
Yn Llanrhaiadr-mochnant ;
Yn Rhosllanerchrugog, crogant
Bob Armin, a Sosin, a Sant."

Pan ddaeth Dirwest (trwy fudiad y Temlwyr Da) yn bwnc dadl yn mhob cwmwd yn Nghymru, rhuthrodd y beirdd o'r ddau du (llwyr-ymwrthodol a chymhedrol) i daflu picellau englynol at eu gilydd. Cadfridog y lluoedd dirwestol oedd Dewi Havesp, a chyda zêl newydd-ddychweliad canai fel hyn :—

"Trwch pin am gerwyn o gwrw—rown i byth ;
Ond rhown a bost yfwr
Yn ei borth pe bae werthwr
Bunt i Dduw am beint o ddwr."

I hyn atebai Trebor Mai :—

"Beth? am *gill* o spâr diluw,—y pen poeth !
Pwnio punt i'r Mawr-dduw !
E' doddai dy aur di-dduw,
Aent ar dân wrth *gounter* Duw !"

Yn erbyn y mudiad newydd yr oedd tuedd Gwilym, fel y profa y cwpled melodaidd hwn allan o'i gyfran i'r ddadl :—

"Saif yr hanes i Frenin
Droi un waith y dwr yn win."

Ac etto :—

"Ple gwelaf ail i Havesp
Frolia hawl y faril hesp ?"

Taflu olew ar wyneb dyfroedd geirwon y ddadl ydoedd prif nod Gwilym ; ceisiai gan ei gyd-feirdd ddewis bob un ei beth yfed ei hun heb ymyrru ag eraill, a'i ddymuniad i Drebor oedd :—

"Tra bir a medd, caed Trebor Mai—drwy y byd
Roi i'w big ryw lymaid ;
Cerdded neu rheded, os rhaid,
I edrych am ei wydraid."

Ac yn yr un ysbryd caredig :—

"A Havesp, caed ef hefyd—ei ddewis
Hyd ddiwedd ei fywyd ;
Iach hwyl iddo i ochelyd
Dotio'i ben mewn diod-tai byd."

Fel yn dwyn perthynas heb fod ymhell a'r pwnc drinir uchod, efallai mai nid annyddorol fydd yr englyn canlynol, yn yr hwn y dywed y bardd beth o'i brofiad fel arwerthwr :—

"'XXX.' sy'n fain troi *auction* fyw ;—pwdr iawn
'XXXX.' i'r cyfryw ;
Dyna y *point*, 'N. P. U.,'
I hedfan *auction* adfyw."

CLEDLYN.

YMWELIAD A CANADA A'R UNOL DALAETHAU.

[PARHAD].

AETHUM o Cincinnati i Pittsburg, yr hon yw yr ail ddinas mewn poblogaeth a phwysigrwydd yn Nhalaeth Pennsylvania. Saif ar fan rhamantus iawn ar dafod o dir rhwng yr afonydd Monongahela ac Allegheny, lle yr ymunant i wneud yr afon fawr Ohio. Mae

PITTSBURG AC ALLEGHENY

yn ffinio a'u gilydd fel Manchester a Salford yn y wlad hon, ac mae poblogaeth y ddwy ddinas erbyn hyn dros hanner miliwn. Mae y wlad rhwng Cincinnati a Pittsburg yn ddyddorol iawn ar amryw ystyriaethau. Ar y daith gwelais lawer o'r *woodchucks*, sef cwningod America, yn pori yn y meusydd. Maent rywbeth yn debyg i wningod y wlad hon, ond fod ganddynt glustiau bychain tebyg i lygoden Ffrengig. Mae yr olygfa ar y wlad yn amrywiol iawn. Mewn rhai manau mae *gas* naturiol yn codi o'r ddaear, a defnyddid ef ar un amser fel tanwydd yn gystal ag fel goleuni ; ond yn awr, gan mwyaf, defnyddir ef i oleuo'r tai a'r gweithfeydd. Mewn manau ereill mae ffynonau braidd dihysbydd o *petroleum* i'w gweled. Drwy holl hanes dinas Pittsburg mae y *gas* a'r olew wedi bod yn adnoddau cyfoeth mawr. Yn yr ardal mae hefyd gyflawnder o lô. Codir hanner can miliwn o fareli o olew a thrigain miliwn o dunelli o lô yn ardal Pittsburg yn flynyddol. Gan fod cyflawnder o danwydd a dwfr wrth law mae Pittsburg wedi dyfod yn lle pwysig iawn fel cartref gweithfeydd haiarn, dur, a gwydr. Sefydlwyd y ddinas oddeutu cant a hanner o flynyddau yn ol, dan lywodraeth Prydain Fawr, a'r amser hwnw yr oedd masnach y lle yn gyfyngedig i drafnidiaeth mewn crwyn a phethau cyffelyb gyda'r Indiaid. Oddeutu pedwar ugain mlynedd yn ol ymsefydlodd llawer o Gymry yno, a byth oddiar hyny mae y sefydlwyr yno o Gymru wedi bod yn lluosog, fel y tystiolaethai y torfeydd enfawr oeddynt yn bresenol yn yr Eisteddfod yno ychydig wythnosau yn ol. Clywais lawer o Gymraeg yn cael ei siarad yn yr heolydd, a swniai yn felus iawn. Er fod Cymry y lle wedi cymeryd rhan bwysig yn nadblygiad y ddinas a'i masnach, Ysgotyn yw y gwr sydd wedi gadael yr argraph ddyfnaf ar y lle. Mae enw

ANDREW CARNEGIE

yn wybyddus drwy yr holl fyd. Dechreuodd ei yrfa yn fachgen tlawd, ond drwy ddiwydrwydd, hunan-aberth, ac ymdrech di-ildio, daeth yn berchen cyfoeth aruthrol. Ymddangosai y gweithfeydd mawrion sydd yn dwyn ei enw yn Homestead gerllaw y ddinas yn gyfleus iawn, ac nis gallwn lai na sylwi fod cyssur meibion llafur wedi cael ei astudio yn fanwl. Nid af i fanylion am y gwaith a droir allan, gan nas gall ffigyrau gyfleu un dychymyg o'r raddfa ëang ar yr hon y dygir hwynt yn mlaen. Ymgododd Mr. Carnegie drwy hunan-ddiwylliant—drwy wneud iawn ddefnydd o'i amser ; a phan ddaeth i feddiant o gyfoeth penderfynodd wneud ei oreu dros ereill. Drwy offerynoliaeth ei lyfrgelloedd daeth a moddion diwylliant o fewn cyrhaedd miloedd o ieuenctyd America, yn gystal a llawer yn y wlad hon. Mae y llyfrgell gyntaf a adeiladodd ar ei draul ei hun yn addurno dinas Allegheny, ac y mae yn odidog hardd a chyfleus. Mae neuadd ëang yn perthyn iddi yn yr hon y cynhalia Undodiaid Allegheny eu gwasanaeth crefyddol. Y boreu

Sul yr ymwelais a'r lle yr oedd yno gynnulleidfa luosog, a chefais fod llawer o'r addolwyr wedi bod yn gyssylltiedig a'r enwad yn y wlad hon. Mae Eglwys Undodaidd Pittsburg yn sefyll ar fan tlws iawn yn yr adran o'r ddinas lle y mae y prif bobl yn trigianu. Mae yn adeilad hardd ac eang ar ddull un o hen eglwysi plwyfol y wlad hon, gyda thwr ysgwar uchel uwchben y fynedfa. Nid pell oddiwrthi yw y "Carnegie Institute," sefydliad mawreddog tebyg i'r British Museum, â'r hwn yr anrhegodd y miliwnydd y ddinas oddeutu ugain mlynedd yn ol. Mae wedi costio erbyn hyn dros filiwn a chwarter o bunnau, ac yn y llyfrgell mae lle i yn mhell dros filiwn o gyfrolau. Yn gyssylltiedig a'r sefydliad y mae oriel celfi cain, yr hwn a gynhwysa weithiau rhai o brif arlunwyr a cherfwyr y byd. Mae yno hefyd amgueddfa odidog, lle ceir engreifftiau yn taflu goleuni ar bob cangen o wybodaeth. Gerllaw mae sefydliad arall rhoddedig gan Mr. Carnegie, sef Ysgol Law-weithfaol, yn yr hon y caiff yr ieuainc ddysgu pob math o grefftau. Un o gyfleusderau mawr y Carnegie Institute yw fod *lifts* neu *elevators* yn wastad ar waith, pan fyddo y lle yn agored, i fyned â'r ymwelwyr i bob rhan o'r adeilad. Yr oedd yn anhawdd genyf ymadael a sefydliad lle yr oedd pob peth wedi ei drefnu yn y modd goreu i gyfranu addysg, a lle derbyniais bob croesaw a help gan y swyddogion. Mae yr adeiladau cyhoeddus yn Pittsburg yn ddestlus iawn, yn enwedig yr ariandai. Mae'r trigolion yn fywiog neillduol, ac mae yn amlwg nad ydynt yn treulio amser segur. Felly yr oedd, mae yn debyg, ganrif neu ragor yn ol. Gofynodd Indiad i un o'r sefydlwyr yr amser hwnw am ryw gymwynas. "Nid oes genyf fi ddim amser," meddai yntau. "Ddim amser," atebai yr Indiad, "mae gyda chwi fel finau yr holl amser sydd." Yr oedd fy nhaith nesaf i

BUFFALO,

yn nhalaeth New York; ond ar y ffordd dymunwn dreulio diwrnod neu ddau yn Jamestown, yn yr un dalaeth. Mae y pellder o Pittsburg i Buffalo yn 269 o filldiroedd, ac mae Jamestown o ddeutu hanner y ffordd. Fy amcan yn ymweled â'r lle hwn oedd cael cipolwg ar amryw deuluoedd a berthynent gynt i'm heglwys yn Bradford. Yr oedd yn bleser mawr genyf eu gweled oll mewn amgylchiadau cysurus. Gan fy mod wedi cael anwyd trwm yn Ogofau Kentucky, ac yn teimlo yn glaf, yr oedd yn hyfryd genyf fod o fewn cyrhaedd rhywun ag oeddwn yn adnabod. Gwaith gwlan a chotwm ydyw adnoddau cyfoeth Jamestown. Gerllaw y ddinas mae llyn enwog y Chautauqua, ar lanau yr hwn mae sefydliadau addysgawl pwysig yn nhymhor yr haf—yn Gorphenaf ac Awst gan mwyaf. Mae y llyn yn ddeunaw milltir o hyd a dwy o led, ac addurnir ei glanau gan goedydd prydferth, dan gysgod y rhai y saif nifer fawr o westai, lle y lletya yr ymwelwyr. Perthyna i'r gymdeithas a elwir y

CHAUTAUQUA ASSEMBLY,

ddau can mil o aelodau, a rhoddir addysg mewn ieithoedd, llenyddiaeth, athroniaeth, cerddoriaeth, a gwybodaethau ereill. Mae yr athrawon yn bobl ddysgedig a chyfrifol. Treulia yr efrydwyr lawer o amser yn rhwyfo ar y llyn, ac ymdrechir gwrteithio meddwl cryf mewn corph iach. Bu y Chautauqua Assembly yn foddion i gychwyn yr *Home Reading Union* yn y wlad hon, cymdeithas o amcan gwir ragorol; ond mae lle i ofni nad yw yn cael genym gefnogaeth ddyladwy. Tra yn Jamestown derbyniais garedigrwydd mawr ar law y Parch. J. H. Taylor, y gweinidog Undodaidd yno. Bu yn gyfaill, meddyg a phob peth i mi a ddylai Cristion fod i'w gyd-ddyn. Yn Jamestown y gwelais y broga cyntaf yn cael ei saethu at ymborth dynol. Broga mawr esgyrnog llygad-lym ydyw, a gelwir ef yn *bullfrog*, am ei fod yn gwneud swn tebyg i darw yn

bygynad. Saethir ef ag *air gun* wedi ei wneud yn bwrpasol ar y gwaith. Pan y saethir ef, try y broga ar ei gefn ar wyneb y dwfr. Wrth neidio yn barhaus dadblyga ei forddwydydd i faintioli rhyfeddol, a dyna yr unig ranau o hono a fwyteir. Dywedir fod broga yn llawn mor flasus a chyw giar, ond gwell genyf fi fod hebddo. Mwy dymunol i mi oedd yr hyn a elwir *wheat cakes and maple syrup*, y rhai ydynt wir ddanteithfwyd. Mae y *wheat cakes* rywbeth yn debyg i *crumpets* y wlad hon, a rhoddir arnynt *maple syrup*, sef sudd naturiol y *maple tree*, yn lle ymenyn. Er mwyn cael y sudd yma gwneir twll yn y pren pan fyddo yn blaguro yn y gwanwyn, a rhoddir *tap* ynddo oddeutu tair troedfedd o'r llawr. O dan y *tap* gosodir bwced i'r hwn y rhed nodd y pren. Mae o liw ac o flas nid anhebyg i fêl. Mae yn ymborth dymunol iawn pan fyddo'r hin yn boeth. Yr oeddwn yn awr yn agoshau at

Afon Fawr St. Lawrence,

a'r llynoedd eang ag ydwyf wedi ddesgrifio yn barod. Nid yw llyn Chautauqua ond chwe' milldir o lyn Erie, ond rhed ei dwr i afon Allegheny, yr hon a'i cluda i'r Ohio, yr hon a ymarllwys i'r Mississipi, a hithau a ymarllwys i'r mor gerllaw New Orleans yn y Deheudir eithaf. Yr oeddwn wedi dechreu teimlo yn gartrefol iawn yn Jamestown, ond yr oedd yn angenrheidiol i mi i gadw fy nghyhoeddiad mewn manau ereill; felly aethum yn mlaen i Buffalo. Saif y ddinas ar gŵr dwyreiniol llyn Erie, oddeutu ugain milltir o raiadr Niagara. Er nad oes ond rhyw chwech ugain mlynedd er pan godwyd yr anedd gyntaf i ddyn gwyn yno, mae yn awr yr ail ddinas yn Nhalaeth New York, gyda phoblogaeth o bedwar can mil. Mae sefyllfa y ddinas ar lan llyn Erie, yr hon a gyssylltir â llyn Huron gan afon Detroit yn gwneud y lle yn bwysig iawn mewn ystyr fasnachol. Daw naw mil o longau yn llwythog i'w phorthladd bob blwyddyn. Mae yn anhawdd desgrifio harddwch glanau y llyn, yr hon sydd ddau cant a hanner o filldiroedd o hyd a thrigain o led. Gelwir y ddinas mae yn debyg oddiwrth y ffaith fod miloedd lawer o *buffaloes* yn arfer pori yn yr hen amser ar odreu'r llyn lle yr oedd y dwr yn culhau digon iddynt i nofio drosodd i'r ochr ogleddol. Mae Buffalo yn ddinas hardd iawn. Mae yr eglwysi o bob enwad yn deilwng o harddwch dwyfol wirioned. Mae y brif eglwys Undodaidd wedi cael ei hail adeiladu yn ddiweddar yn un o heolydd harddaf y ddinas, lle y cysgodir y preswylfeydd ardderchog gan goedydd o amrywiaeth mawr. Mae yr eglwys, yr ysgoldy, y *lecture hall*, a'r parlyrau i gyd yn yr arddull Gothaidd, ac yn adeiladau costfawr tu hwnt i ddim braidd a godir yn Mhrydain yn yr oes hon. Yr oedd yn amlwg i mi fod y gynnulleidfa yn defnyddio pob moddion i ddylanwadu yn ddyrchafol ar gymdeithas. Mae yn wir i'r

Bregeth Oreu

glywodd dyn erioed gael ei thraddodi ar ryw fynydd di-nod yn Galilea lle nad oedd nac organ nac eurgor i ddyrchafu'r gân, ond mae yr amser wedi cyfnewid. Cydnabyddir yn awr y dylid dwyn holl adnoddau diwylliant i wasanaeth crefydd. Synwyd fi yn fawr gan faintioli ac amlder y coedydd yn braidd yr oll o'r heolydd lle mae y bobl yn cartrefu. Torant rym y gwynt mewn tywydd garw, a rhoddant gysgod rhag y gwres yn yr haf. Delaware Avenue ydyw yr heol harddaf yn y lle fel mae y Fifth Avenue yn New York. Mae rhai o'r adeiladau masnachol, yr eangaf yn y byd. Er engraifft, yn Ellicott Square Building cyferfydd pum mil o glercod i wneud eu gwaith bob dydd. Mae yno un-ar-bymtheg o *lifts* i'w dwyn at eu gwahanol orchwylion. Yn America gwneir pob peth i leihau llafur a'i hwylysu. Ar gyffiniau y ddinas gwelais amryw lysiau yn tyfu yn wyllt, megis y "friallen hwyrol"

a'r "ffarwel haf," y rhai ni thyfant ond dan wrtaith yn y wlad hon. Gan nad oeddwn yn adnabod neb yn Buffalo ni wnaethum arosiad hir yno, ond aethum yn mlaen i

SYRACUSE,

lle y cefais dderbyniad croesawgar gan Hungariad ieuanc ag oedd wedi bod yn gyssylltiedig a'm heglwys yn Lloegr. Mae pob peth yn nghylch y ddinas yn dangos fod y trigolion yn ddiwylliedig a blaenfynedol. Mae y boblogaeth yn rhifo rhyw chwech ugain mil. Mae yno brif-ysgol lewyrchus iawn gyda dwy fil a dau cant o fyfyrwyr, a naw ugain o athrawon. Saif y ddinas hon ar lan llyn, sef yr Ondaga. Yn y corsydd ar ei glanau mae y dwr yn llawn o halen, yr hwn a gesglir ac a burir ar raddfa eang—oddeutu tair miliwn o bwysau y flwyddyn. Mae gan yr Undodiaid eglwys flodeuog iawn yno. Codwyd yr adeilad presenol er coffadwriaeth am ei hen weinidog, y Parch. Samuel May, yr hwn a lafuriodd yn galed am flynyddau lawer i sicrhau eu rhyddid i gaethweision y Talaethau Deheuol. Y gweinidog yno ar adeg fy ymweliad oedd y Parch. Gordon Calthorp, D.D. Rhifai yr aelodau oddeutu pedwar cant, ac yn eu plith yr oedd llawer o bobl ddysgedig a dylanwadol. Profai pob peth o amgylch y lle fod y gynnulleidfa yn talu parch dyladwy i'w cartrefi ysprydol. Sylwais fod cadeiriau breichiau esmwyth wedi cael eu darparu ar gyfer holl ddeiliaid yr Ysgol Sul yn fychain a mawrion. Telid sylw i gyssur y plentyn pedair oed yn gystal ag i eiddo yr henafgwr pedwar ugain. Tra yr oeddwn yn aros yn Syracuse aethum gyda chyfeillion i ddinas gyfagos

AUBURN

i weled y carchar yno, lle mae deuddeg cant o ddrwg-weithredwyr dan ddysgyblaeth. Eglurwyd i mi mai amcan mawr y sefydliad hwn oedd troi y carcharorion oddiwrth ddrygioni eu ffyrdd, ac i'r perwyl hwn gwneir defnydd o'r hyn a elwir yn *silent system.* Ni adewir i ymddiddanion drwg lygru yr hyn sydd eto yn dda yn y carcharion. Cedwir pob peth o amgylch y lle yn berffaith lân a chryno. Ymwelais ag amryw o'r celloedd tra yr oedd y carcharorion allan wrth eu gwaith, a cheisiwn sylweddoli pa mor drist oedd eu cyflwr. Yr oedd gweled deuddeg cant o ddrwg-weithredwyr yn ciniawa gyda'u gilydd yn olygfa dorcalonus iawn. Yr oeddynt oll wedi bod unwaith yn fabanod diniwed ar lin eu mamau, ac yr oeddynt wedi bod yn anwyl iawn i rywrai. Edrychai rhai ohonynt fel pe wedi ymgaledu yn erbyn pob dylanwad da, tra yr oedd arwyddion ar wynebau llawer o honynt eu bod eto yn hiraethu am ddychwelyd i dŷ eu Tad. Pan ddychwelant byddant yn sicr o gael croesaw. Gerllaw Auburn mae llyn hardd Skaneâtelés, ar yr hon y treulia pobl Syracuse lawer o'u hamser pan fyddo y tywydd yn boeth iawn; ac ar ddydd fy ymweliad yr oedd yn hyfrydwch mawr genyf i ymuno â hwynt. O Syracuse aethum i

UTICA,

yr hon sydd un o ddinasoedd mwyaf Cymreig tu draw i'r Werydd.

E. CEREDIG JONES.

(I'w barhau).

NEFOEDD AC UFFERN.

We cannot go
Where universal love smiles not around,
Sustaining all yon orbs, and all their suns;
From seeming evil still educing good,
And better thence again and better still
In infinite progression.
Thomson.

Ychydig amser yn ol cyhoeddwyd llyfryn swllt yn ymwneud ag Uffern, ac yn cynwys syniadau rhyw un-ar-bymtheg o bersonau; ac fel canlyniad, dybiwn, cychwynwyd gohebiaeth ar yr un pwnc yn y *Daily News and Leader*, yr hwn a barhaodd am rai wythnosau, ac y mae'n syndod yr yr amrywiaeth barnau amlygwyd. Cred rhai hyd heddyw yn yr Uffern naturiol o dân a brwmstan—yr uffern yr ymhyfrydai Mr. Spurgeon ei ddesgrifio mewn geiriau mor gryfion a lliwiau mor danbaid. Fe gofia'r darllenydd am ddarluniad un o'r beirdd Cymreig:—

"Gwêl obry wagle enbyd,
Lle trig tragwyddol benyd
O gwrbwygilydd;
Ei llawr, yn aelwyd frwdias fawr,
Brwmstanllydd belau,
Berwboeth dalpau,
Uffernol ffyrnau,
A myglyd meiliau mwll,
A'r seirff yn glymiau gwynias,
Oddiamgylch yn mhob twll."

Uffern i bobl eraill, wrth gwrs, yw uffern o'r fath—

"Lle mae y ddedfryd damnio,
Fyth, fyth, yn swnio'n syn."

Gofyna un gohebydd, "A ddywed unrhyw un a chanddo gydwybod iachus nad yw dyn ddim yn well ei fod yn treulio ei fywyd mewn ofn iachus o gospedigaeth dragwyddol." Ebe un arall, "Yr wyf yn grediniwr cadarn mewn uffern dragwyddol i'r annuwiol, ac y bydd gogoniant tanbaid (*blazing*) sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw drwy hyny yn cael eu cadarnhau yn dragwyddol." Dywed un a ddisgrifia ei hun fel "Welsh Evangelist," "Fod yr hyn y mae rhai o arweinwyr crefydd wedi ei draethu yn y gohebiaethau hyn yn ddigon i godi gwrid i wyneb dyn, a hyny o gywilydd teg; ac y dylai'r dynion hyn, y foment y rhoddant i fyny i ddal ac i bregethu athrawiaeth eglwysi efengylaidd, y dylent, ar yr un pryd, roddi i fyny dderbyn cyflogau eglwysi efengylaidd." Nid drwg sylw un o'r boneddigesau—"Nid rhyfedd fod amheuaeth yn ffynu pan y mae'r pregethwr yn ceisio darlunio Duw fel "Cyfaill pechaduriaid" yn ystod eu daearol ymdaith, ac yn "Rhostiwr" tragwyddol wedi gorphen eu bywyd." Y mae un gohebydd yn symio'r mater i fyny yn ngeiriau rhyw Yscotyn—"*A kirk without a hell is not worth a damn.*" Y mae caplan *workhouse* yn dyfynu geiriau Milton "*The mind is its own place, and in itself can make a Heaven of Hell and a Hell of Heaven,*" ac ychwanega—"Cyhyd ag yr erys pechod yn ffaith yn mydysawd moesol Duw, mae'n rhaid y bydd Uffern yn y byd hwn ac yn y nesaf." Eb efe, "*Hell in this world is sin ripe, in the next rotten ripe, hence irremediable, hence also the doctrine of eternal punishment.*" Rhywun o'r Iwerddon a ddywed—"Mae'n beth creulawn i'n hamddifadu o'r ddamcaniaeth am fodolaeth Uffern, dymchwelai hyny holl adeilad crefydd y *Roman Catholic*, a thueddai i'w di-wreiddio oddiar eu seiliau." Dywed un nad yw yn cael athrawiaeth purdan nac un siawns am iachawdwriaeth ar ol marw yn y Testament Newydd, ond y mae'n cael yno fod Duw yn gariad, a chan ei fod yn credu hyny, cred na

wnaiff Duw'r cariad ddim sydd yn anghyfiawn. Y mae'n foddlon aros yn y gred y gwnaiff Duw cariadus bob peth yn dda. Eglura ei ddamcaniaeth am y bywyd dyfodol – fel yr ydym yma yn y bywyd hwn, felly yn sylweddol y byddwn yn y byd a ddaw; fod Uffern mewn gwir yn golygu fod ymwahaniad oddiwrth Dduw, a'i fod yn dechreu yn awr. Eb efe – "Baich fy mhregethu i yw cariad Duw. Credaf ei fod yn gryfach cymhelliad i fywyd da na phregethu poenau dyfodol."

Mab i'r diweddar Archesgob Canterbury a ddywed – "Yr wyf yn credu mewn anfarwoldeb a'm holl galon, a chredaf fod Duw yn berffaith ac yn hollol gyfiawn, ac mae'r hyn y mae dyn yn ei hau y bydd iddo fedi. Credaf y caiff pechod cyndyn, bwriadol, parhaus ei gospi'n llym, eithr nid yn ddialeddol a chreulawn. Credaf y bydd pob cosp yn adferiadol, a'i amcan i helpu dynion i weled y lle y gorwedd y gwir, ac yn mha beth y mae dedwyddwch yn gynwysedig. . . Os yw pechod yn amserol *(finite)* bydd cosp yn amserol hefyd. Byddai cospi pechod meidrol â chosp anfeidrol yn anghyfiawnder erchyll a chreulawn. . . Credaf fi na foddlonir cariad Duw byth, ac na fydd ei nerth yn gyflawn byth nes casglu pawb o fewn i'w gariad."

Dyna ddigon o'r dyfyniadau. Darllener hwy yn fanwl a myfyrgar. Gwahaniaethant yn fawr. Barned y darllenydd drosto ei hun.

Yn mis Ebrill, 1865, traddodwyd pregeth yn Alltplaca ar bwnc testun y penawd, yr hon a gafodd beth sylw ar y pryd. Cafodd ei hargraffu yn YMOFYNYDD Mai. Ped ysgrifenai'r awdwr hi heddyw, byddai'n dra gwahanol mewn llawer ystyr; ond credwn ei bod yn cynwys cnewyllyn y mater. Beth pe byddai rhai o'n pobl ieuainc yn traethu eu llen ar y mater. Credwn y teimlid dyddordeb. Tebyg fod rhai o'n darllenwyr wedi gweled Pryddest Gadeiriol Eisteddfod Meirion, Calan, 1901," gan Gwili ar "Uffern." Dechreua

"Yn ymwybyddiaeth dyn mae llynclyn erch,
Ar hyd yr oesau! Nid yw'r bywyd hwn,
Medd ei gydwybod beunydd, onid awr
I ddangos greddf a deddf ei fythol oes, &c.

* * * * * *

Fe wyr ei fod, o'i fewn, bob dydd a nos
Yn gwau, ar lén ei ysbryd, nefoedd lân
Neu uffern erchyll; ac nid ydyw holl
Uffernau'r oesau ond eiluniau gwan
O'r hon a lunir beunydd ynddo ef."

Yna â rhag ei flaen i ddarlunio Uffern – (1) yr Ethnig; (2) yr Israel; (3) y Canoloesau; (4) y Piwritaniaid; (5) ac yn Uffern Heddyw fe rydd ini ddisgrifiad dyddorol iawn :—

"A gaf fi drem ar uffern fel y mae
Yn ngolau pura'r nefoedd ar fy nydd," &c.

"Nid ydyw Uffern mwy fel bu, fy mrawd,
Ond nis dileuwyd hi * * &c.

Mi wn fod Duw yn dad, a'i fod yn dod
Fel Tad i lywio meddwl pur yr oes.
Fwyaf dyngarol welodd hyn o fyd.

Carem ddyfynu rhagor ond rhaid aros ar hynyna.

T.C.U.

RHINWEDDAU AMHEUS.

"*Always there is a black spot in our sunshine; it is even, as I said, the shadow of ourselves.*"

Yr oedd y doethion seryddol wedi rhagflaenu y doethawr o Chelsea pan fynegodd yn ei "Sartor Resartus" na chanfuwyd yr haul erioed heb ei frychau. Dywed naturiaethwyr y ceir ryw gysgod o arliw brithlwyd yn gorchuddio grawn y wenithen, yr hwn ronyn neu hedyn a ymddengys i'r llygad noeth mor wyned a'r carlwm. Os yw hyn yn ffaith am wrthddrychau nas llychwinwyd mewn unrhyw Eden, pa faint mwy ynglyn a phlant yr ewyllys rydd —deiliaid sydd a'u posibilrwydd moesol yn ddarostyngedig i'r

DA A'R DRWG?

i fai a rhinwedd? Ond ni soniwn ddim am athroniaeth ein natur foesol yn ein erthygl heddyw—cymerwn lwybr arall—at y rhinweddau amheus yn unig ac yn fyr.

Adwaenid dynion fel rheol oddiwrth eu cymeriadau, a'u cymeriadau drachefn oddiwrth eu prif nodweddion—da neu ddrwg—ond ysywaeth na cham fernir y naill a'r llall yn fynych wrth briodoli ansoddau (*qualities*) mor ddigymysg i'r cyfryw—ond odid na cheir rhyw ochr oleu i ddrwg y gwaethaf; ac hyd yn oed rhyw agwedd amheus i dda y goreu. Er na charwn ddweyd fod y gosodiad olaf yn cynwys egwyddor a ffaith gyffredinol am rinweddau pobl dda yn ddieithriad—eto gallwn fod yn eithaf sicr yn ein barn a'n profiad parthed un dosbarth o ddynion o leiaf nad ydyw eu rhinweddau yn dda di-gymysg a di-ddiffyg. Goddefed y darllenydd i ni ddethol rhyw nifer fechan o'r dosbarth y cyfeiriwn ato. Fel mater o brawf arnynt hwy, a chyfle i ninnau i feirniadu am dro, cânt fynegi am eu rhinweddau drostynt eu hunain, a hyny heb ganiatau hawl i ni ein hunain i ragdybied

HUNAN-DYBIAETH

o'u tu hwy wrth draethu yn ffafriol am danynt. Dywedent hwy am eu rhinweddau, dywedwn ninnau am ddiffygion eu rhinweddau. Caiff

1. *John Penlan* ddyfod i'r llwyfan yn gyntaf. Amaethwr a lladdwr moch ydyw wrth ei alwedigaeth, ac yn un o ddiaconiaid hynaf eglwys ———. "Wel, gan eich bod wedi ceisio gennyf i fynegi yr hyn a dybiaf ydyw prif nodwedd fy nghymeriad neu rhinwedd fwyaf fy mywyd, ni phetrusaf am foment i ddweud mai

(*a*) *Plaender* ydyw. Gŵr plaen ydwyf fi, a dyna ddywedir am danaf gan bawb o'm cydnabod. Nid oes meddwl deublyg byth i'm geiriau. 'Does fyth amwysedd yn cael nodweddu yr ergyd fydd yn fy ngherydd i'r sawl fydd yn ei haeddu gennyf. Ni wisgais unrhyw ymadrodd o'm heiddo hyd yn hyn a barddoniaeth; ac ni leferais air trwy ddameg. Credaf mewn dinoethi fy meddwl mewn iaith ddi-orchudd a phlaen. Pan ddisgyblaf aelod eglwysig am wyro fymryn ar y ddeheu neu'r aswy —mewn gair neu weithred caiff y brawd ddeall nad dihatru plysg rhyw ŵyau ydwyf; nad taenu mêl wyf dros ei gamwedd; nad gweniaeth sydd genyf i feddyginiaethu'r drwg. Nid noddi pechadur fyddaf trwy swgro ei bechod. Gŵr syml ac unplyg ydwyf, ac yn dweyd fy meddwl a'm teimlad yn blaen a dilen wrth bawb yn ddi-dderbynwyneb a di-wahaniaeth, bydded wreng neu fonedd, yn frenhin neu gardotyn—yr un plaender ysbryd a pharabl sydd genyf i bawb, heb fod nodweddion gwahaniaethol dynion mewn unrhyw gylchoedd cymdeithasol yn dylanwadu dim iod arnaf, na

chreu y cyfnewidiad lleiaf yn fy ymddygiad atynt."

Dyna! yr ydych wedi traethu yn helaeth ar yr hyn a ystyrir gennych yn

BRIF RAGORIAETH EICH CYMERIAD.

Y rinwedd fawr dybiedig trwy yr hon y gwahaniaethir chwi yn benaf oddiwrth bobl eraill; ond cyn eich bod yn cael tynnu'r casgliad yn derfynol eich bod wedi eich donio a'ch meddianu o leiaf ag un rhinwedd anffaeledig yn eich bywyd, goddefwch i mi ofyn nifer o gwestiynau awgrymiadol yn garedig i chwi.

A ddaeth yr ystyriaeth erioed i'ch meddwl gymaint o gleddyf dau finiog ydyw eich plaender? gymaint o ergyd dwrn sydd yn eich gair? Dywed yr hyfwyn a'r hynaws eich bod yn ddiarhebol am glwyfo ac archolli, ac nad oes balm genych fyth i liniaru'r loesion roddasoch trwy erwinder eich plaender. Drylliasoch ganoedd o deimladau yn ystod eich oes – ac mae calonau llaweroedd heb orphen gwaedu eto ar ol eich brathiadau miniog. Nid prawf o feddalwch nac arwydd o lacrwydd ydyw addfwynder ysbryd. Nid ydyw cerydd caruaidd yn arwydd o arwriaeth fasw, na mynegiant a thraethiad boneddigaidd yn ffurf anwrol ar lwfrdra. Yr addfwynaf o feibion dynion, a'r tirionaf o bawb o'r hîl, oedd Mab y Saer o Nazareth, ond ar yr un pryd y dewraf o feibion y daran. Pan oedd ei lygaid yn pefru o fellt a'i leferydd yn taranu storm yn erbyn pechod a chamwedd rhagrithwyr a drwg-weithredwyr, yr oedd pelydryn o dosturi grasol yn Iesu ar ei wedd, a sŵn llif ei faddeuol falm yn cyd-ddiferu gyda'i eirian. Mae'r cyfuno'r bonedd a'r arwr yn gelf grefyddol, ac yn grefft ddwyfol gwerth y ddisgyblaeth fwyaf i ddysgu ac arfer yn gyson. Amheuwn dduwioldeb y plaender gerwin, a gwadwn hawl ei feddianydd i gael ei gyfrif yn un o fintai Duw. Cofier gyngor y gŵr doeth:—

"Atteb araf a ddettry lid, ond gair garw a gyffry ddigofaint."

"Peryglus yw teyrn-wialen yn llaw yr anghall, ag arabedd lem ddi-fêl ar wefus yr annoeth."

"Rhyw ddyn a ddywed eiriau fel brath cleddyf; ond tafod y doethion sydd feddyginiaeth."

Gwell fuasai i'r ffraeth a hylithr ei barabl rhwygol i'w dafod lynu am ei oes wrth daflod ei enau nag iddo agor briw ac achlysuro loes diadfer.

PARCWYSON.

(*Pw bar hau*).

UNDODIAETH YN SCOTLAND.—Yn 1813 y sefydlwyd Cymdeithas Undodaidd yr Alban, a Gorphenaf 28ain, 1913, oedd pen canmlwydd. Am fod y dydd hwnw yn nghanol y gwyliau, dathlwyd y Canmlwyddiant Medi 6ed, yn Montrose. Mae yn debyg mai yn Montrose y cychwynwyd yr achos Undodaidd cyntaf, a hyny yn 1781.

SWN RHYFEL. Yn nyddiau tywyll Jingoaeth milwrol yn Ffrainc, yn amser Louis XIV, gwnaeth Fenelon (1651 1715) sylwadau y byddai'n dda i'r awdurdodau gwladol sefyll a myfyrio uwch eu penau:—"Er cymaint ein dyledswydd i'n gwlad ein hunain, y mae ein dyledswydd i'r Famwlad fawr Dynoliaeth yn llawer mwy. Mae pawb dynion yn frodyr, a phob rhyfel yn rhyfel cartrefol. Byddai'n dda pe gallem ddileu pob hanes, ac achub cenedlaethau y dyfodol rhag y gwarth a'r cywilydd fod dyn erioed wedi tywallt gwaed dyn."

GWISG Y GORUCHAF.

"We are deaf and blind to the immanent grandeur around us, unless we have insight enough to appreciate the whole and to recognize in the woven fabric of existence, flowing steadily from the loom in an infinite progress towards perfection, the evergrowing garment of a transcendent God."—

SIR OLIVER LODGE.

"NI welodd llygad dyn erioed
Y goron sydd ar ael ein Tad ;
Ond pan ddyrchafo'r huan byrth
Y dwyrain neu'r gorllewin, syrth
Ymylon gwisg ar stol ei droed,
Ei godre'n llachar megys gem—
Y wisg y cafwyd arni drem
Gan wylwyr defaid Bethlehem,
Pan glywsant genadwri hedd.

Ni chanfu deall dyn erioed
Y fantell sydd ar ysgwydd Duw ;
Ond, wele, mae'r boglymau bras
(Aur, amethyst, a chrysopras,
Fil myrddiwn mwy na dail y coed)
Sy'n harddu'r fantell, gain ei phleth,
Fu goruwch gweithdy Nazareth,
I'w canfod heno yn ddifeth,
Fel disglaer oleuadau gwledd.

Ni ddaeth i galon dyn erioed
Na llun na lliw ei wregys Ef ;
Ond pan ysgydwer hi a'i law,
Ar fryniau tragwyddoldeb draw,
Fe ddeffry awel yn ddioed,
Fel gynt yn Gethsemane—chwa
Sy'n lleddfu poen, sy'n tarfu pla,
Sy'n crino drwg, sy'n maethu da,
Sy'n cyneu serch, sy'n trechu'r bedd."

Llundain. D. R.

MARW'R MAB O FLAEN EI DAD.

MR. GOLYGYDD,—

Yn rhifyn Awst y mae cyfeiriad at bregeth o eiddo y Parch. John Jones (1802—1863), Aberdâr, a draddodwyd ganddo pan yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin. Y mae braslun (*skeleton*) o honi ger fy mron yn bresenol, a meddyliais y gallai cyfiethad fod yn ddyddorol i rai o'ch lluosog ddarllenwyr. Wele hi, gan hyny, at eich gwasanaeth os ewyllysiwch ei defnyddio. Cofier mai eiddo gwr ifanc yw.—R. J. J.

"A Haran a fu farw o flaen Terah ei dad, yn ngwlad ei enedigaeth, o fewn Ur y Caldeaid."—Gen. xi. : 28.

Nid yw yn fy mwriad i geisio cymodi yr anhawsderau a ddichon ymddangos yn y rhan hon o'r hanes Moesenaidd, er o bosibl y gellid gwneud hyny yn rhwydd ; ond yn hytrach ceisiaf alw eich sylw at bwnc arall, pwnc mwy ei bwys, a phwnc sy'n dal cysylltiad agos â phob dyn byw—sef ei ymddatodiad—tynged sy'n aros pob dyn byw, ac sydd yn

gosod terfyn ar holl gysuron a holl drallodion bywyd. Dwg ddiwedd ar bob ymrafael ac ymryson rhwng dynion sydd wedi bod yn elyniaethus i'w gilydd ac yn elyniaethus i gymdeithas. Mae'r sawl a arferant edrych ar eu cyd-ddynion fel gwehilion byd yn cael eu darostwng gan yr Angeu i'r un cyflwr isel a'r gwaelaf o farwolion. Breninoedd a deiliaid, esgobion a gwyr lleyg, caeth a rhydd, gorweddant gyda'u gilydd yn ngwely oer y beddrod heb fod yr un yn ceisio traws-awdurdodi ar y llall.

Ac nid yn unig y mae pob sefyllfa a gradd o ddynion yn dyfod i gyfarfyddiad ag awr eu hymddatodiad; ond y mae pob oedran hefyd—yr ifanc a'r hen, y baban a'r un mewn oed, cyfranogant o'r un dynged—tynged apwyntiedig pob desgrifiad o ddynion. "A Haran a fu farw o flaen ei dad Terah." Yn gymaint, gan hyny, a bod hyn yna yn cael ei ddywedyd, ceisiaf—

I. Ddwyn ger bron brofion fod y bywyd hwn yn ansicr. (1) Dysg hanes ni mai felly y mae yn mhob oes o'r byd; (2) Cawn brofion dyddiol o hyny; (3) Y mae natur yn ei gwahanol gyfnewidiadau yn dwyn tystiolaeth i'r un peth; (4) Dyna hefyd yw llais yr Ysgrythyrau. Matth. 24 : 44, 50; 25 : 13; Luc 12 : 40, 46.

II. Ceisiaf ddangos fod Duw pan yn creu dyn yn bwriadu iddo farw. (1) Ffurfiodd ef allan o bridd y ddaear, yr hwn sydd yn barhaus yn myned dan gyfnewidiad. (2) Yr oedd yn angenrheidiol iddo gael bwyd er ei gynal mewn bywyd. (3) Yr oedd yn angenrheidiol iddo gael awyr i anadlu ynddi. (4) Prawf yr Ysgrythyr yr un peth (Hebreaid 9 : 27). (5) Pe na byddai i ddynion farw llanwent y ddaear i'r fath raddau fel y byddai yn anmhosibl iddynt allu byw yn ddedwydd.

"Gan mai yn y Farn y mae yn rhaid i ni ymddangos nesaf, ein dyledswydd yw parotoi ein hunain ar gyfer y dydd ofnadwy, canys nid oes na gwaith na dychymyg yn y bedd lle yr ydym bawb yn myned."

"A Text given by consequential Methy."

ADOLYGIAD.

"HERESY, Its Ancient Wrongs and Modern Rights in these Kingdoms. Essex Hall Lecture. By Alexander Gordon, M.A." London: 5, Essex Street, Strand. Pris swllt.

Llyfr yn rhoddi helynt a hanes y frwydr am ryddid crefyddol ydyw hwn, gyda hanes yr erledigaethau, y dioddefiadau a'r merthyrdodau a gymerasant le yn y blynyddoedd hyny. Araf ac afrwydd yw pob dadblygiad a dyddorol yw darllen hanes ymdrechion y dewrion a enillasant i ni y rhyddid a fwynhawn yn bresenol. Yr achlysur o gyhoeddi'r llyfr yw'r ffaith fod eleni yn ganmlwyddiant y ddeddf a basiwyd (Gorphenaf 21, 1813) i roddi *relief* i Undodiaid fel y gallant yn ddiberygl addoli Duw yn ol llais eu cydwybodau. Yn unol a'r hen benill a ymddangosodd tua'r adeg hono—

Kings, lords, and commons do decree,
That henceforth every man is free,
To think or say, as it may be,
That one is one and three are three.

Fel pob peth o waith Mr. Gordon, mae y llyfr yn *thorough*, yn gynwysfawr ac ar yr un pryd yn ddyddorol, a gellir dibynu ei fod yn gywir yn ei ffeithiau. Y mae ei bris hefyd o fewn cyrhaedd y boced fechan.

Ni wnawn ond un dyfyniad bychan. "Y mae cant a deugain mlynedd er y darfu i Dr. Priestley (1733–1804) roddi'r her canlynol i amcan cul deisybion yr Ymneilduwyr, yn ceisio mesur o *relief* iddynt eu hunain yn unig :—'Yr ydych hyd yn hyn,' ebe fe, gyda'i bwyslais diofn arferol, 'yn gwneuthur eich cais fel Cristnogion ; safwch i fyny yn awr fel dynion, a gofynwch ar unwaith am ddiddymiad holl ddeddfau cosp mor bell ag y mae a fynont a materion o opiniwn.'" Dymunwn i'r llyfr ledaeniad helaeth.

Q.Q.

ENWADAETH.

Beth am y dyfodol? Nid yw'r Eglwys Roeg yn menu fawr arnom ni yn y wlad hon, a thra parhao awdurdodau Rhufain i fyny fod Undeb yn gynwysedig mewn arddel awdurdod gyffredin mewn cred addoliad a llywodraeth, y mae Undeb â hi'n anobeithiol. Rhydd Rhufain ormod o bwyslais ar yr allanol, gan anghofio mai'r hyn a wna'r Eglwys yn un yw fod gan yr holl aelodau ran mewn bywyd cyffredin yn Nghrist. Yr unig obaith o gyfeiriad Rhufain yw'r symudiad mawr ardderchog a elwir Modernism, a gynrychiolwyd mor ddysglaer yn ddiweddar yn Mhrydain gan yr athrylithgar Dad Tyrrell, ac yn Ffrainc gan yr Abbe Loisy. Hyfryd yw deall fod ugeiniau o'r offeiriaid ieuengaf yn Itali o dan gyfaredd y symudiad hwn ; darllenant (yn ddirgel) lyfrau o'r Almaen a Lloegr ar feirniadaeth Feiblaidd, gwyddoniaeth, athroniaeth ddiweddar, &c. Egyr hyn oll fyd newydd o'u blaen, a phwy a wyr beth fydd y diwedd?

Pan ddelom at Eglwys Loegr cawn ynddi hi ddau ddosbarth neu enwad, y "Catholigion" a'r dosbarth "Efengylaidd." Gresyn fod yr adran "Gatholig" yn yr Eglwys hon, wrth lynu'n dyn wrth y Ddylyniaeth Apostolaidd (nad ellir byth ei phrofi ar dir hanes) yn ei gwahanu'i hun oddiwrth y cyfundebau y dylai llawer iawn o gydymdeimlad naturiol fod rhyngddi a hwy. Gwna hyny er mwyn ei chysylltu ei hun ag enwad a wrthyd yn bendant gydnabod ei dilysrwydd fel Eglwys, fel y gwrthyd yr Uchel Eglwyswyr hwythau gydnabod dilysrwydd yr enwadau Ymneillduol. Pe byddai'r adran Efengylaidd yn gryfach yn Eglwys Loegr, pe bae modd diwygio (beth bynag am dori) cysylltiad yr Eglwys hono a'r Wladwriaeth, a phe bae'r Uchel Eglwyswyr yn coledd syniadau llai haiarnaidd a ffurfiol am natur yr Eglwys a'r Weinidogaeth, buasai'r gobaith am Undeb yn llawer gloewach nag y mae. Cyn y ceir Undeb, rhaid i bob adran ddysgu a chyfaddef nad yw'r holl wir gan yr un ohonynt na chan bob adran gyda'u gilydd. Rhaid fydd cydnabod y gwir sydd yn Seiat yr Ymneillduwyr ar un llaw ac

yn yr offeren yn St. Pedr hefyd Cyfuno gwahaniaethau y mae'r Gwirionedd, nid eu chwalu ar wahân. Digon prin fod neb o honom yn aeddfed i son am gynlluniau ffurfiol tuag at Undeb ar hyn o bryd, ond gellir gweithio i'r cyfeiriad hwn trwy frawdgarwch a chyfnewid meddyliau, trwy lefeinio'r farn gyhoeddus a gwaith yr ysgolheigion mewn duwinyddiaeth, esboniadaeth, hanes, &c., trwy ladd rhagfarn a dysgu oddiwrth eu gilydd.

Ynglyn âg Ymneillduwyr Cymru, credwn fod y rhai goreu o honynt yn barod i gydnabod fod Undeb yn llawer nes heddyw nag y bu erioed, ac mai da fuasai chwaneg o newid pwlpudau, mwy o wasanaeth undebol, &c. Ceir y rhai hyn mewn rhai ardaloedd eisoes, ar y Sul weithiau, ac y mae pobl o wahanol enwadau yn dechreu agor eu llygaid a synu mor debyg ydynt i'w gilydd ar bob peth pwysig. Mentrwn roddi dau awgrym wrth orphen :—(1) Onid yw'r amser wedi dyfod pryd y dylem gael un Llyfr Emynau i Ymneillduwyr Cymru, ac i'r Anglicaniaid hefyd os ymunant? Un Beibl sydd genym oll, paham na chawn un Llyfr Emynau hefyd? Ac oni cheir eisoes waith emynwyr o bob enwad yn mhob Llyfr Emynau bron? Os cyfyd anhawsder—er enghraifft, eisieu nifer o emynau cyfaddas i ddull y Bedyddwyr o fedyddio—gellid cael Attodiad bychan. (2) Onid yw'r amser wedi dyfod i gael un Coleg Duwinyddol i Ymneillduwyr Cymru? Breuddwydiodd y Prifathraw Thomas Charles Edwards am hyny; gwnaeth ef ei ran, ac ar ein llaw ni bellach y mae cyflawni'r breuddwyd ysblenydd hwnw. Eisoes y mae colegau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn Mangor yn un i bob pwrpas ymarferol. Byddai Coleg Duwinyddol Undebol yn rhatach; ond peth bach fyddai hyny wrth beth arall, byddai'n fwy effeithiol, a byddai'n gareg lefn yn nhalcen y Goliath o enwadaeth gul a flinodd gymaint ar Israel Duw yn Nghymru.

Pa un a geir Undeb yn mysg gwahanol gangenau Eglwys Crist trwy'r byd ai peidio, pwy a wyr na cheir un Eglwys Genedlaethol yn Nghymru eto? Eglwys yn ddigon eang i gynwys ynddi ei hun awdurdod resymol a rhyddid barn; Un Eglwys yn ymosod ar ddrygau personol a chymdeithasol yn lle ymosod ar eu gilydd; Eglwys yn cynwys hufen y genedl yn mysg ei harweinwyr, a'i bryd ar ail-eni cymdeithas a lladd y rhaib anniwall am arian sy'n boddi cynifer heddyw o drueiniaid diniwed i ddinystr a cholledigaeth; Eglwys yn rhoi mwy o bwys ar wneuthur cyfiawnder nag ar gredu'n union fel rhyw awdurdodau goruchel ar bob rhyw fanion gan gofio mai'r neb sy'n gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn; Eglwys yn rhyfela'n ddiarbed yn erbyn yr hunanoldeb annynol ac annuwiol sy'n gwneuthur masnach o beth mor gysegredig a bywyd dynol; Eglwys a'i hargyhoeddiadau moesol a chrefyddol mor oleu a dwfn nes y bydd barn yn rhedeg fel dyfroedd a chyfiawnder fel ffrwd gref allan o honi i fywyd y genedl.—*Rhan o ysgrif y Parch. D. Tecwyn Evans yn "Y Beirniad."*

Dywed y Judge Fawcett nad oedd cymaint ag un allan o'r tair mil, mwy neu lai, orfu ymddangos o'i flaen ef yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn aelod gweithgar o unrhyw eglwys ar adeg ei drosedd. Dyna sylw teilwng o ystyriaeth pawb, ac un y dylid ceisio ei wasgu adref.

PRIODASAU.

Yn y Graig, Trebanos, dydd Mawrth, Awst y 5ed, gan y Parch. D. G. Rees, gweinidog, a'r Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, unwyd mewn hardd briodas Mr. Stephen John Edwards, Pontardawe a Miss Mary John Bowen, Trebanos.

Mae'n calon yn curo
  Llawenydd i'n bron,
A churo a pheidio
  Dihuno un don ;
Tra huna y tonau
  Yn ngwely yr aig,
Dwed mil o galonau
  "*Hapusrwydd yn graig.*"
Go hawdd yw dymnno
  Hapusrwydd i'r ddau,
A hawdded f'ai peidio,
  Er hyny, pe tae ;
Ond rhaid i galonau
  Ddymuno mewn gair
Am fordaith ddi-donau
  I Stephen a Mair.

BANOS.

Medi 16, yn eglwys Llanwnen, Mr. David Lloyd, Penbrynmawr, mab hynaf Mr. Thomas Lloyd, Felindreuchaf, Llanfihangel-Ystrad, â Miss Sarah Richards, Pentreshon, Llanwnen.

MARWGOFION.

Dydd Llun, Awst 8, yn dra sydyn, bu farw Mrs. Margaret Phillips, gweddw y diweddar Mr. William Phillips, o Blaentrafle. Yr oedd yn byw adeg ei marwolaeth gyda'i mhab tua dwy filldir o dref Aberteifi. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol yn mynwent Rhydypark. Pregethodd ei hen gymydog, y Parch. D. S. Davies, Cwmfelin, yn y capel, a gwasanaethai y Parchn. E. A. Jenkins, Moriah, a J. Lewis, Blaenycoed, ar lan y bedd. Er ei bod wedi symud er's cryn amser o'r ardal, yr oedd amlygrwydd o barch mawr iddi yn aros ar ddydd ei hangladd. Da oedd genym weled fod y capel (er yn wâg) ynghyd a'r fynwent wedi bod dan rhyw fân adgyweiriadau yn ddiweddar.

Aswt 8, yn 64 mlwydd oed, John John, Ynysmeudwy, Pontardawe. Nid oes ond ychydig fisoedd er pan y cludwyd brawd yr ymadawedig i'r fangre fud. Wele frawd a chyfaill trwyadl arall yn dilyn olion traed blaenoriaid y ffordd dragwyddol. Edrydd pob allt ei hanes ei hun. Tyf y goedwig i ystad o nerth ; ac ynddi y mae derw cedyrn, wedi gwreiddio yn ddwfn, wedi brigo yn mhell gyrhaeddol ! —ond nid i aros ; nage. Mae awelon, gwyntoedd, a stormydd y Llaw Anweledig yn gryfach, hyd yn oed, na'r dderwen braff. Fel y syrth y pren anianol, y syrth y deml ysprydol. Mor dlws yw'r darlun ! Cymerodd yr angladd le y dydd Llun canlynol, a rhowd ei arch o bridd i dawel hamddenu yn mynwent Gellionen. Gweinyddodd y Parch. D. G. Rees, gweinidog, yn bwrpasol a thyner. Caffed y galarwyr gyfnerth y nef i weled ymylon euraidd o amgylch, a haul y tu draw i'r cwmwl. " Gwyn eu byd y rhai pur o galon."

Mae gobaith yn canu ei salm
  I bryder a gofid y byd ;
A hyder yn cynyg ei falm
  I glwyfus ddynoliaeth 'r un pryd.

Dydd angladd marwolaeth sy'n dod,
Daw bedd i wylofain cyn hir ;
Cydganed ymdeithwyr y rhod,
Mae gwawr Duw ar dân uwch y tir!

BANOS.

DYDD Llun, Medi 1af, yn 64ain mlwydd oed, Hannah, anwyl briod Lewis Hopkin, Cathelyd, Clydach-ardawe. Dyma y chwaer olaf o reng y teulu lluosog o amaethdy Glyncoch, wedi ei throsglwyddo i gadw'r cwmni gyda'r cantorion nefol. Disgyn nodau ei chaingc swynol ar ein clustiau, a dychmygwn weled a chlywed y côr yn plethu ei gyfeiliant a'i gynghanedd i enaid ei charol hyfryd-dlos. Bu yr ymadawedig yn gyfyngedig y tu mewn i furiau afiechyd a nychdod, am yn agos i ddeunaw mlynedd. Noddwyd a chynhaliwyd hi gyda'r tynerwch llwyraf i'r diwedd. Ond wele yr Arglwydd yn medi a chasglu ei eiddo i'w ydlan gynes yn mroydd ei dragwyddol haf! Mynychai dŷ Dduw cyhyd ac y parhaodd y Duw hwnw i estyn nerth iddi. Ac y mae cynulleidfaoedd Gellionen a'r Graig wedi colli aelod fu yn addurn i "Eglwys y Duw byw." Y nawnddydd Iau cyfisol, cynhebryngwyd hi gan dorf fawr i gladdfa Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees, gweinidog. Gweddiwyd ar lan ei bedd gan y Parch. Rhys Lewys, gweinidog Elim, Craigcefnparc. Sugned y ddau frawd oroesant ei chwaer eu cysur a'u hedd oddiwrth Dad y goleuni. A bydded i'r hwn a adawyd yn unig ar aelwyd Cathelyd, edrych i fyny i gyfeiriad sêr yr Iôr, ac fe genfydd eu llewyrch ysblenydd yn goleuo ac yn gwynu ei lwybr anial.

Anwylaf frawd, mor brudd yw'th wedd,
Mor unig ydwyt ar y daith ;
Bu'th gydmar dirion lawer gwaith
Yn cadw prudd-der o dy sedd.

Daw iti lawer adgof dlos,
A llawer meddwl fel yr ôd,
O'ch gyfeillgarwch is y rhod,
A'ch ymddiddanion ar fin nos.

O, ymgysura ar dy rawd,
A chân ganiadau'r wawr a'r dydd,
Ac mewn unigedd, efe ffydd,
Ei chwmni gei, anwylaf frawd.

BANOS.

MEDI 10, yn 66 mlwydd oed, Mrs. Mary Edwards, Clettwr Arms, gweddw y diweddar John Edwards gynt o Pantstreimon a Beiligwyn plwyf Llandyssul. Hanai yr ymadawedig o deulu lluosog ac adnabyddus yn mhlwyf Llandyssul, ac yn gyfnither i'r Parch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago, am yr hwn y carai son llawer iawn. Bu yn dal cysylltiad agos ag eglwys Pantydefaid er yn foreu a pharhaodd felly hyd y diwedd. Gadawodd ddau fab a dwy ferch, wyrion, brodyr a chwiorydd a pherthynasau eraill mewn galar o'i cholli. Y dydd Sadwrn dilynol cludwyd ei gweddillion marwol i gladdfa Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y Parch. Arthur Thomas ac ar lan y bedd gan y Parch. John Davies, Alltyplaca.

Medi 13, yn 73 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Jones, Penbanc, Temple Bar, Llanfihangel Ystrad. Gwanllyd iawn oedd yr ymadawedig wedi bod er's blynyddau ; yr oedd rhodio ychydig o gwmpas ei chartref yn gymaint a allai wneyd. Daeth ei diwedd, er hyny, yn hollol annisgwyliadwy ; ni fu un cyfnewidiad ynddi hyd o fewn ychydig funydau i'w marwolaeth. Yr oedd yn ddynes o dymher dawel a siriol, ac o deimlad da tuagat bawb. Yr oedd ei phlant yn hoff neillduol o honi, ac y mae ei symudiad wedi gwneyd eu bywydau yn wag iawn iddynt. Ond nid oes yma ddinas barhaus i neb, ac y mae ganddynt achos i ddiolch eu bod wedi cael ei chadw cyhyd. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, a E. Gwilym Evans, Aberayron. Gadawodd bedair merch, tri mab, a meibion-yn-nghyfraith ac wyrion, yn nghyd ag un brawd mewn galar ar ei hol.

MANION AC HANESION.

LLWYDDIANT.—Y mae yn llawenydd mawr genym gofnodi llwyddiant Dr. Goronwy Jones, mab y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yr hwn yn ddiweddar enillodd y radd o M.D. o Brif Athrofa Llundain. Deallwn fod y brawd ieuanc yn bwriadu ymsefydlu yn Wood Green, Llundain. Eiddunwn iddo eto lwyddiant mawr yn ei gylch pwysig.

DYFFRYN CLETTWR. — Ychydig fisoedd yn ol cychwynwyd "Pabell y Plant," o dan nawdd Urdd y Rechabiaid yn yr ardal hon, ac er mai yn hên gapel y Llwyn y cynhelir y cyfarfodydd, mae y babell yn agored i holl blant y gymydogaeth; a da yw genym allu dyweyd fod plant o Carmel, Llwyn, a Phantdefaid, yn aelodau. Mae gan y babell 24 o aelodau, heblaw 5 o aelodau anrhydeddus. Da iawn, ond mae lle i wella etto. Ar y bummed o'r mis hwn, rhoddodd Miss Jones, Gellifaharen, wledd o dê rhagorol i'r aelodau, a theimlwn yn ddiolchgar iawn iddi am dani, ac am y zêl mawr a ddug dros y babell. Gan fod y ddaear yn llaith ar ol gwlaw y borau, cafwyd y tê o dan dô yn y Llwyn. Yna cafwyd chwareuon o bob math, mewn cae ag y bu Mrs. Jones, Pengelli, mor garedig â'i roddi at ein gwasanaeth. Llwyddiant i'r Babell.

GALWADAU.—Deallwn fod cyfarfodydd llwyddianus iawn wedi eu cynal yn ddiweddar, y naill yn Newchurch, lle y sefydlwyd yn weinidog y Parch. T. J. Jenkins, Hinckley, gynt o Gellionen, a'r Parch. Glyn Evans, o Goleg Home Missionary, Manceinion yn weinidog yn Derby. Yr oedd y cyfarfodydd brwdfrydig yn nodweddiadol o'r Cymro, a da oedd genym weled Cymry yn cymeryd rhan mor flaenllaw yn eu croesawu—y Parchn. J. M. Lloyd Thomas, Birmingham ac E. D. Priestley Evans, Bury. Deallwn hefyd fod Cymro arall ar fwriad gadael Cymru—y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., Pontypridd, yr hwn sydd wedi derbyn galwad i fugeilio yr Eglwys Undodaidd yn Nantwich. Os nad ydym yn camsynied bu y Dr. Priestley yn weinidog am yspaid yn yr hen eglwys hon. Llwyddiant mawr ddilyno yr oll.

DR. JAMES BROWN.—Pan ddarfu i'r Parch. James Brown ymsefydlu gyntaf yn Haddington, cafodd roesaw gwresog yr holl gynulleidfa oddigerth un person, yr hwn a safai yn gyndyn yn ei erbyn. Ceisiodd y Dr. yn mhob modd a allai i ddwyn y Dissenter unigol hwn i fewn i'r undeb teimlad oedd yn ffynu drwy yr holl gynulleidfa fawr, ond methodd pob ymdrech o'i eiddo i gael cyfarfod wyneb yn wyneb ag ef. Un diwrnod fodd bynag, digwyddodd gwrdd ag ef yn ddamweiniol ar yr heol. Estynodd y Doctor ei law iddo a dywedodd, "Yr wyf yn deall eich bod yn wrthwynebol i mi ymsefydlu yn Haddington. "Yr ydwyf," ebe yntau. "Wel, os yw'r cwestiwn yn deg, mi garwn wybod am ba reswm yr ydych yn wrthwynebol i mi?" "Oblegid, Syr, nad wyf yn ystyried eich bod yn meddu y cymwysderau angenrheidiol i lanw swydd mor bwysig." "Dyna'n gywir Syr, yw fy marn i fy hunan. Ond i beth y gwnewch chwi a minau osod ein hopiniynau yn erbyn eiddo yr holl gynulleidfa." Gwenodd y brawd, a seliwyd eu cyfeillgarwch am byth.

TRYSOR YN Y NEF. — Y mae'r Beddargraff a ganlyn i'w weled mewn mewn mynwent yn yr Eidal:—

"Yma gorwedd Estella, yr hon a drosglwyddodd ffortun fawr i'r nefoedd, mewn gweithredoedd o garedigrwydd, ac y mae wedi myned yno i'w fwynhau."

'WELE YR WYF YN SEFYLL WRTH Y DRWS, AC YN CURO.'

(*Dadg. 3 : 20.*)

Mae'r Iesu'n curo, curo,
Wrth bob calon dan y nef ;
Byddwn ddoeth, agorwn iddo,
Rhoddwn roesaw iddo ef.

Mae yn dod yn lân oleuni,
Harddach na phelydrau'r wawr ;
Yn ei degwch llwyr ddiflanu
Mae gofidiau blin y llawr.

Wrth glöedig ddor pob calon,
Clywn ei lais yn galw'n fwyn—
"Dewch ! anghofiwch eich gofalon,
Goleu'r nefoedd wyf yn ddwyn."

Llawenhewch ! mae cariad dwyfol
Yn gofalu am y byd ;
Llawenhewch ! mae Duw yn rasol—
Tad maddeugar yw o hyd.

Goleu'r Iesu yn y galon,
Cysur anrhaithadwy yw ;
Dengys wynfyd gwlad angylion,
A thrugaredd bythol Duw.

Tyred Iesu, i'n goleuo—
Hardd oleuni'r byd wyt ti ;
Boed i'th yspryd pur breswylio,
Yn dragywydd ynom ni.

E. CFREDIG JONES.

Mehefin 13, 1913.

ATHROFA UNDODAIDD BERKELEY, CALIFORNIA. - Drwy garedigrwydd a rhagweledigaeth Mr. a Mrs. Francis Cutting, Oakland, California, a Dr. a Mrs. Horace Davis, San Francisco, California, fe sefydlwyd Athrofa Undodaidd yn Berkeley, California, yn y flwyddyn 1904. Y mae 3,000 o filltiroedd rhyngom â'r Athrofeydd Undodaidd yn nhalaethau dwyreiniol y wlad hon ; y mae un o'r rhai hyn yn gysylltiedig â Phrifysgol Harvard, a'r llall yn Meadville, Pennsylvania. Cyn y flwyddyn 1904 yr oedd yn rhaid i'r Eglwysi Undodaidd Sefydledig i'r gorllewin o'r Rocky Mountains yn nhalaethau Oregon, Washington, California, &c., i anfon i'r lleoedd hyn i gael gweinidogion ; oud y mae yn bosibl iddynt yn awr i gael pregethwyr o'r athrofa uchod. Y mae tair athrofa dduwinyddol yn Berkeley, ac hefyd prifysgol California, yn yr hon y mae 8,000 o fyfyrwyr. Y mae yr athrofeydd hyn yn gweithio gyda'u gilydd ac hefyd yn gyssylltiedig â'r brifysgol. Felly rhoddir i'r myfyrwyr gyfle neillduol dda i barotoi eu hunain i weinidogaethu mewn pethau ysprydol. Nid yw yr athrofa yn cyfyngu ei haddysg i ddynion ieuainc o'r Unol Dalaethau yn unig ; y mae yn barod i dderbyn myfyrwyr o unrhyw barth o'r byd. Yn ystod yr wyth mlynedd o'i hanes y mae myfyrwyr wedi dyfod o Japan, Australia, Germany, Prydain Fawr, &c. Amcan uchel yr ysgol ydyw parotoi gweinidogion i gyfarfod âg angenion yr ugeinfed ganrif. Ysgolheigiaeth drwyadl, fel y gellir gosod gwirioneddau crefyddol yn ngoleuni gwyddoniaeth ac athroniaeth, a dealltwriaeth o'r pethau a wnant dipyn wrth dipyn ddyn perffaith mewn dynoliaeth berffaith ydyw y prif bethau a ddeil o'i blaen. Rhoddir y teitl *Bachelor of Theology* ar ol tair blynedd o waith yn yr ysgol i fyfyrwyr sydd wedi myned i goleg o safle, a rhoddir *certificate* am bedair blwyddyn o waith i fyfyrwyr eraill. Y mae hinsawdd a thymmorau Berkeley yn oll a ellir ddymuno. Y mae yn bossibl i lafurio yn mhethau meddyliol mor bell ag y mae y tywydd yn myned trwy yr holl flwyddyn. WILLIAM S. MORGAN.

[Da genym weled fod Cymro mor genedlgarol â Dr. Morgan yn un o athrawon y Coleg uchod. Ar ein gwibdaith i'r America yn 1907 cawsom y pleser o'i gyfarfod, ac y mae yr argraff dda wnaeth arnom yr adeg hono, y caredigrwydd ddangosodd i ni, a'r llawenydd amlygai o gwrdd â Chymro mewn gwlad estronol, yn gwneud i ni deimlo ac i ddymuno y bydd llwyddiant mawr yn ei ddilyn yn ei waith fel athraw mewn Duwinyddiaeth. GOL.].

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

"PARABL PERERIN CYMREIG, O GELLIONEN I'R AIPHT A CHANAAN AC YN OL."

TRADDODIR . . . .

DARLITH

Ar y Testun uchod, gyda 50 o ddarluniau, gwisgoedd brodorol, etc., i egluro arferion y Beibl.

Ymofyner â'r **Parch. D. G. Rees, Trebanos, Pontardawe, Glam.**

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.,

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry

Authorised Capital ..	£22,200,000	Subscribed Capital ..	£19,148,340
Paid up Capital ..	£3,989,237	Reserve Fund ..	£3,390,313

Deposits .. £83,000,000.

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.